Elin Jones AC
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

11 Mawrth 2020

Annwyl Elin,

Bil Partneriaeth Gymdeithasol (Cymru)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Chwefror, a gafodd ei drafod yn ein cyfarfod ar 4 Mawrth. Rydym yn gwerthfawrogi bod y Pwyllgor Busnes wrthi'n trafod at ba bwyllgor y dylid cyfeirio'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol (Cymru) cyn ei gyflwyno yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Gwnaethom gytuno, yn seiliedig ar y cynigion yn y Papur Gwyn, fod y Bil yn dod o fewn portffolio ein Pwyllgor. Rydym yn cydnabod y bydd hwn yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth. Felly, credwn mai'r ffordd orau o ddod i benderfyniad ynghylch ble y dylid cyfeirio'r Bil hwn fyddai ichi ei drafod ymhellach gyda mi a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol. Byddai hyn yn galluogi ystyried llwythi gwaith a blaenraglenni y pwyllgorau.

Mae hyn yng nghyd-destun y llwyth gwaith deddfwriaethol trwm y mae ein Pwyllgor wedi'i wynebu dros dymor y Cynulliad hwn, ac yn benodol y ffaith ein bod ar hyn o bryd yn cynnal gwaith craffu ar ddau Fil. Er mwyn rhoi mwy o gyd-destun i chi ynghylch rhai o'r heriau o ran capasiti yr ydym wedi'u hwynebu yn ystod y Cynulliad hwn, amgaeaf yr ohebiaeth ddiweddar i'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad sy'n nodi'r rhain yn fanylach.

Edrychaf ymlaen at drafod y materion hyn yn fwy manwl, ynghyd â David Rees.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
0300 200 6565

Yn gywir,

John Griffiths

Cadeirydd

Wedi'i amgáu: Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau at Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, 27 Ionawr 2020

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.